# Enwi a Rhifo Strydoedd

monmouthshire
sir fynwy



Polisi a Chanllawiau

Enwi a Rhifo Strydoedd

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Polisi a Chanllawiau Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Sir Fynwy |
| **Diben** | Dogfen gyfreithiol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1925 |
| **Perchennog** | Cyngor Sir Fynwy |
| **Cymeradwywyd gan** | Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| **Dyddiad** | Ionawr 2024 |
| **Fersiwn rhif** | Tri (Rhagfyr 2023) |
| **Statws** | Fersiwn i'w chymeradwyo |
| **Amlder adolygu** | Bob pum mlynedd |
| **Dyddiad adolygiad nesaf** | Rhagfyr 2028 |
| **Ymgynghoriad** | |

## Cynnwys

**1 Cyflwyniad ..... 4**
1.1 Datganiad polisi ..... 4
1.2 Beth yw Enwi a Rhifo Strydoedd? ..... 4
1.3 Pam fod Enwi a Rhifo Strydoedd yn bwysig? ..... 4
1.4 Pwy sy'n gyfrifol am Enwi a Rhifo Strydoedd? ..... 4
**2 Canllawiau ar gyfer Ymgeiswyr ..... 5**
2.1 Pryd i ymgeisio ..... 5
2.2 Sut i wneud cais ..... 5
**3 Polisi Iaith Gymraeg ..... 6**
3.1 Polisi Iaith Gymraeg/Dwyieithrwydd ..... 6
**4 Enw a Rhifo Datblygiadau Newydd ..... 7**
4.1 Egwyddor Gyffredinol ..... 7
4.2 Defnyddio teitlau marchnata answyddogol ..... 8
4.3 Themâu arfaethedig ..... 8
**5 Cymeradwyo Cynlluniau Enw a Rhifo Strydoedd ..... 9**
5.1 Enwau Strydoedd ..... 9
5.2 Dilyniant rhifo eiddo ..... 10
5.3 Canolfannau siopa, parciau manwerthu a stadau diwydiannol ..... 11
5.4 Gweithredu cyfeiriadau newydd ..... 12
**6 Newidiadau i Enwi a Rhifo Strydoedd presennol ..... 13**
6.1 Ychwanegu enw at eiddo sydd â rhif presennol ..... 13
6.2 Ailenwi eiddo a enwir yn bresennol ..... 13
6.3 Trosi adeilad presennol ..... 13
6.4 Trosi ysgubor/adeilad allanol neu adeilad sy'n adfail ..... 13
6.5 Ailenwi strydoedd ac enwi strydoedd gwledig heb eu henwi ar gais preswylwyr ..... 14
6.6 Ailrifo eiddo presennol neu ail-enwi stryd i gynnwys datblygiad newydd ..... 14
**7 Rhestr Tir ac Eiddo Cyngor Sir Fynwy ..... 15**
7.1 Y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) ..... 15
**8 Hysbysu Partneriaid Mewnol ac Allanol am Wybodaeth am Gyfeiriadau ..... 16**
8.1 Pan gwblheir cais ar gyfer Enwi a Rhifo Stryd, bydd Cyngor Sir Fynwy yn hysbysu'r sefydliadau neu adrannau dilynol am y cyfeiriad(au) newydd neu ddiwygiedig: ..... 16
**9 Cysylltiadau Defnyddiol ..... 17**
9.1 Y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd yng Nghyngor Sir Fynwy ..... 17
9.2 Y Tîm GIS yng Nghyngor Sir Fynwy ..... 17
9.3 Post Brenhinol ..... 17
9.4 Arolwg Ordnans ..... 17
9.5 Gwasanaeth Cyfieithu Cyngor Sir Fynwy ..... 17
**10 Atodiadau ..... 18**
10.1 Costau Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Sir Fynwy ..... 18

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Datganiad polisi

1.1.1 Nod y ddogfen hon yw rhoi cyngor ac arweiniad i ddatblygwyr, deiliaid eiddo, adrannau mewnol y Cyngor a Chynghorwyr Sir ynghylch polisi Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Sir Fynwy.

1.1.2 Caiff enwi a rhifo strydoedd yn Sir Fynwy ei reoli gan Gyngor Sir Fynwy dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1925 – Adrannau 17 i 19 (Enwi Strydoedd a Newid a Dynodi Enwau Strydoedd). Dan y Ddeddf hon, mae’n ddyletswydd ar Gyngor Sir Fynwy i enwi strydoedd.

1.1.3 Mae hyn ar gyfer sicrhau fod unrhyw enwau a/neu rifau stryd ac eiddo newydd neu ddiwygiedig yn cael eu dyrannu’n rhesymegol ac mewn modd cyson. Mae hyn yn hwyluso darparu gwasanaeth yn effeithiol gan gyrff sector cyhoeddus a sector preifat ac yn benodol yn sicrhau fod Gwasanaethau Brys yn gallu dod o hyd i unrhyw gyfeiriad y gallent gael eu galw iddo.

## 1.2 Beth yw Enwi a Rhifo Strydoedd?

1.2.1 Mae Enwi a Rhifo Strydoedd yn caniatáu i hunaniaeth unigryw gael ei ddynodi i stryd ac unrhyw eiddo cysylltiedig y gellir cael mynediad iddo drwy stryd.

## 1.3 Pam fod Enwi a Rhifo Strydoedd yn bwysig?

1.3.1 Mae cofrestru cyfeiriad eiddo yn dod yn fater cynyddol bwysig.

1.3.2 Mae cynnal safon gynhwysfawr, gyson ac uchel ar gyfer enwi strydoedd a rhifo neu enwi eiddo yn hanfodol gan ei fod yn caniatáu:

- Gwasanaethau Brys i ddod o hyd i eiddo yn gyflym – gall oedi gostio bywydau ac arian;
- Post i’w ddosbarthu yn effeithlon;
- Ymwelwyr o ddod o hyd i’w cyrchfan;
- Dosbarthu gwasanaethau a chynnyrch yn ddibynadwy;
- Cofnodion darparwyr gwasanaeth i’w cadw mewn modd effeithiol;
- Cwmnïau i dderbyn cyfeiriad at ddibenion swyddogol e.e.: yswiriant, statws credyd, derbyn contract..

## 1.4 Pwy sy’n gyfrifol am Enwi a Rhifo Strydoedd?

1.4.1 Mae gan Gyngor Sir Fynwy gyfrifoldeb statudol, yng nghyd-destun deddfwriaeth fabwysiadu, i sicrhau bod strydoedd yn cael eu henwi ynghyd â phwerau dewisol ychwanegol i ddarparu enw neu rif i eiddo.

1.4.2 Dylid nodi nad oes gan y Post Brenhinol unrhyw bŵer statudol i enwi stryd neu i enwi, rhifo, ailenwi neu ail-rifo eiddo.

1.4.3 Y Post Brenhinol sy’n llwyr gyfrifol am neilltuo codau post ar ôl i Gyngor Sir Fynwy roi gwybod am fanylion, cyfeiriad newydd neu ddiwygiedig.

1.4.4 Mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnal proses ymgynghori a chysylltu lawn a helaeth gyda’r Post Brenhinol i sicrhau cydymffurfiaeth, cysondeb a dileu amwysedd, dyblygu a dryswch posibl.

# 2 Canllawiau ar gyfer Ymgeiswyr

## 2.1 Pryd i ymgeisio

2.1.1 Dylid gwneud ceisiadau am wasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd gan

- Unigolion neu sefydliadau sy'n dymuno ychwanegu enw at eiddo â rhif yn unig sy'n bodoli eisoes.
- Unigolion neu sefydliadau sy'n dymuno ailenwi eiddo sydd eisoes ag enw.
- Unigolion neu ddatblygwyr yn adeiladu eiddo newydd h.y. tai newydd, adeiladau masnachol, unedau diwydiannol ac ati.
- Unigolion neu ddatblygwyr sy'n dymuno newid cynlluniau datblygiadau newydd sydd eisoes wedi mynd trwy'r broses enwi a rhifo.
- Unigolion neu ddatblygwyr sy'n trosi eiddo presennol a fydd yn arwain at greu eiddo neu adeilad newydd (h.y. adeiladau presennol wedi'u rhannu'n fflatiau neu swyddfeydd, ysguboriau wedi'u troi'n breswylfeydd, unedau masnachol wedi'u rhannu ac ati).
- Cyfreithwyr, trawsgludwyr, cwmnïau chwilio personol, datblygwyr neu ddeiliaid eiddo preswyl neu fasnachol unigol ac ati sy'n ceisio cadarnhad o gyfeiriad.
- Trigolion sy'n dymuno ailenwi stryd neu enwi stryd heb enw

2.1.2 Gall y broses Enwi a Rhifo Strydoedd fod yn un faith o dderbyn cais, hyd at y broses ymgynghori i baratoi a chwblhau atodlen gymeradwy a chynlluniau lleoliad.

2.1.3 Dylai ymgeiswyr ymgynghori â Chyngor Sir Fynwy ar y cyfle cyntaf ar gyfer cyfeiriadau a cheisiadau newydd. Dylid cyflwyno ceisiadau cyn gynted I phosibl ar ôl rhoi Caniatâd Cynllunio a Chymeradwyaeth Rheoli Adeiladu ar gyfer y cynnig, a dechrau ar y safle i osgoi oedi posibl.

2.1.4 Fe'ch cynghorir felly i fod yn ofalus wrth ddefnyddio enwau datblygu at ddibenion marchnata gan nad yw'r enw wedi'i awdurdodi fel enw stryd neu gyfeiriad swyddogol ac mae enwau o'r fath yn annhebygol iawn o gael eu cymeradwyo fel enwau stryd swyddogol.

## 2.2 Sut i wneud cais

2.2.1 Mae'n rhaid i bob cais am wasanaethau Enwi a Rhifo Stryd gynnwys:

- Ffurflen Gais Cyngor Sir Fynwy – Cwblhau Enwi a Rhifo Stryd wedi ei llenwi.
- Cynllun lleoliad ar raddfa o ddim llai na 1:1250 yn dangos lleoliad yr eiddo yng nghyswllt yr amgylchiadau daearyddol.
- Dylai datblygiadau newydd hefyd gynnwys cynllun gosodiad yn dangos trefniadau mynediad ar gyfer eiddo newydd. Rhaid i ddrysau blaen yr eiddo newydd gael eu dangos yn glir.
- Y ffi briodol ar gyfer y gwasanaeth Enwi a Rhifo Stryd penodol sy'n ofynnol.

2.2.2 Gellir cael ffurflen gais Enwi a Rhifo Stryd trwy:

- Ymweld â'n gwefan yn https://www.monmouthshire.gov.uk/street-naming-and-numbering/
- E-bost contact@monmouthshire.gov.uk neu developmentcontrol@monmouthshire.gov.uk
- Cysylltu â'r switsfwrdd yn 01633 644644
- Ymweld â'ch Siop Un Stop leol.

2.2.3 Dylid anfon ceisiadau wedi'u cwblhau i developmentcontrol@monmouthshire.gov.uk neu:

Enwi a Rhifo Strydoedd
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga NP15 1GA

# 3 Polisi Iaith Gymraeg

## 3.1 Polisi Iaith Gymraeg/Dwyieithrwydd

3.1.1 Fel Awdurdod Unedol yng Nghymru, mae Cyngor Sir Fynwy yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) ac i gefnogi twf yr iaith yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

3.1.2 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am bob agwedd o fonitro cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg sy'n weithredol i'r Cyngor dan y ddeddfwriaeth uchod. Mae hefyd yn monitro fod y Cyngor yn datblygu ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu ei wasanaethau.

3.1.3 Mewn cysylltiad â'i Gynllun Iaith Gymreg, mae Cyngor Sir Fynwy yn credu fod creu enwau stryd newydd yn rhoi cyfle unigryw i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymreg.

3.1.4 Bydd enwau stryd swyddogol newydd eu cymeradwyo naill ai yn uniaith Gymraeg, a ddangosir yn Gymraeg yn unig, neu'n ddwyieithog, a ddangosir yn ddwyieithog yn Gymraeg ac wedyn y Saesneg.

3.1.5 Lle mae stryd bresennol gydag enw Saesneg angen platiau enw stryd ychwanegol neu newydd, er enghraifft oherwydd difrod, caiff cyfieithiad Cymraeg o enw'r stryd ei ychwanegu at y plât enw, er mwyn cydymffurfio gyda Chynllun Iaith Gymraeg Cyngor Sir Fynwy. Bydd y platiau enw newydd yn dangos enw'r stryd yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3.1.6 Lle mae stryd bresennol sydd ag enw dwyieithog neu Gymreg angen platiau stryd ychwanegol neu newydd, er enghraifft oherwydd difrod, bydd y platiau enw newydd yn dyblygu'r cynnwys dwyieithog neu Gymraeg yn unig presennol.

3.1.7 Mae gan Gyngor Sir Fynwy ddyletswydd statudol i gadw rhestri cywir a chyfoes o enwau trefi, pentrefi, cymunedau a wardiau yn ogystal â datblygiadau newydd. Ym mhob achos bydd y Cyngor yn sicrhau fod y rhestri hyn o safon uchel a bydd, ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg, yn cynnal archwiliad o'r rhestri y mae'n eu cynnal ac yn eu safoni lle bo angen.

# 4 Enw a Rhifo Datblygiadau Newydd

## 4.1 Egwyddor Gyffredinol

4.1.1 Mae enwi strydoedd newydd yn Sir Fynwy yn cael ei wneud dan 'Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1925, Adran 17 – Hysbysiad i Awdurdod Lleol trefol cyn enwi stryd'.

4.1.2 Mae Cyngor Sir Fynwy yn croesawu derbyn awgrymiadau am themâu a/neu enwau strydoedd gan ddatblygwyr eiddo sy'n cyflwyno cais am wasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd. Dylid cymryd gofal i sicrhau bod yr enwau a awgrymir yn cwrdd â'r protocolau a gynhwysir yn y ddogfen hon.

4.1.3 Ni fydd enwau strydoedd newydd yn cael eu rhoi i ddatblygiadau newydd pan ellir cynnwys datblygiadau o'r fath yn foddhaol yng nghynllun rhifo cyfredol y stryd sy'n darparu mynediad.

4.1.4 Fel sir, mae gan Sir Fynwy gefndir hanesyddol sylweddol ac felly er mwyn sicrhau bod y dreftadaeth hon yn cael ei chadw, rhoddir blaenoriaeth i enwi cynlluniau sydd â chyd-destun hanesyddol neu leol.

4.1.5 Os na ellir sefydlu cyswllt hanesyddol yn uniongyrchol â'r tir sy'n cael ei ddatblygu yna gellid archwilio ardaloedd cyfagos i gael syniadau.

4.1.6 Os na phennir unrhyw gyd-destun hanesyddol a lleol, a bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys rhwydwaith o strydoedd, gellid awgrymu thema. Unwaith eto, dylid cymryd gofal i sicrhau bod unrhyw thema arfaethedig yn cwrdd â'r protocolau a gynhwysir yn y ddogfen hon.

4.1.7 Pan dderbynnir cais am Enwi a Rhifo Stryd ar gyfer datblygiad newydd, bydd y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd yn:

- Adolygu awgrymiadau am enw strydoedd
- Ymgynghori gyda chydweithwyr sy'n gofalu am y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG);
- Ymgynghori gyda'r Post Brenhinol.

Er mwyn sicrhau fod yr enwau a awgrymir yn ateb y protocolau yn y ddogfen hon, mae'n hanfodol bwysig na chaiff enwau newydd eu dyblygu o fewn yr Awdurdod neu awdurdodau cyfagos er mwyn osgoi dryswch gyda chyfeiriadau presennol.

4.1.8 Unwaith y sefydlwyd fod yr enwau stryd a gynigir yn ateb y protocolau hyn, cânt eu cyflwyno i Gyngor Cymuned/Tref yr ardal a Chynghorwyr Sir ar gyfer eu hystyried.

4.1.9 Gall y Cyngor Cymuned a'r Cynghorydd Sir ar gyfer yr ardal ddefnyddio eu gwybodaeth leol a hanesyddol i benderfynu ar unrhyw themâu a awgrymir a/neu addasrwydd enwau stryd ar gyfer yr ardal. Gall y Cyngor Cymuned a'r Cynghorydd Sir awgrymu themâu a/neu enwau stryd eraill a all fod â chyd-destun hanesyddol a lleol mwy perthnasol. Caiff unrhyw awgrymiadau eu hasesu ar y protocolau a gynhwysir yn y ddogfen hon.

4.1.10 Mae Cynghorau Cymuned yn cwrdd unwaith y mis felly dylid cofio y gall y broses o enwi strydoedd newydd fod yn un faith. Oherwydd bod gan y Cyngor Cymuned a'r Cynghorydd Sir rôl bwysig yn y broses, mae Cyngor Sir Fynwy yn cynghori datblygwyr eiddo newydd sy'n cyflwyno cais am wasanaethau Enwi a Rhifo Strydoedd i gyfathrebu â'r Cyngor Cymuned a'r Cynghorydd Sir cyn cyflwyno cais.

4.1.11 Er bod pob cyfle yn cael ei roi i unigolion neu sefydliadau i awgrymu themâu datblygu newydd a / neu enwau strydoedd, yn y pen draw, mae penderfyniad y Cyngor yn derfynol ar gyfer enwi ffyrdd, ailenwi ffyrdd, rhifo neu ail-rifo eiddo ac enwi neu ailenwi eiddo.

## 4.2 Defnyddio teitlau marchnata answyddogol

4.2.1 Ni fydd Cyngor Sir Fynwy yn defnyddio teitlau 'marchnata' answyddogol neu themâu a ddefnyddir gan y datblygwyr ar gyfer gwerthu eiddo newydd os na chytunwyd ymlaen llaw ar gyd-destun hanesyddol neu leol ac ar y ddealltwriaeth glir y bydd y thema yn unig yn ffurfio sail y cynllun a gymeradwywyd ar gyfer enwi strydoedd.

4.2.2 Yn neilltuol, ni chaniateir mabwysiadu teitlau 'marchnata' wrth greu enwau 'answyddogol' deniadol ar gyfer enw lleoliadau neu bentrefi.

4.2.3 Felly cynghorir gofal wrth ddefnyddio enwau datblygu ar gyfer dibenion marchnata os na chafodd yr enw ei awdurdodi.

## 4.3 Themâu arfaethedig

4.3.1 Dylai datblygydd/Cynghorydd Sir/Cyngor Tref neu Gymuned sy'n cynnig thema ar gyfer Enwi a Rhifo Strydoedd ar gyfer cynllun datblygu newydd ystyried y dilynol:

- Dylai'r enwau strydoedd a awgrymir fod â chyd-destun hanesyddol neu leol amlwg a chysylltiad uniongyrchol â safle'r datblygu neu ardaloedd cyfagos.
- Gall enwi strydoedd ar ôl unigolion fod ychydig yn ddadleuol, felly ni chaiff yr enw stryd a awgrymir fod yn enw person sy'n naill ai yn fyw neu wedi marw'n ddiweddar. Rhoddir ystyriaeth i enwau unigolyn gyda chysylltiad hanesyddol uniongyrchol gyda'r safle datblygu. Gweler pwynt 4.3.2 isod.
- Ni fydd y cynllun a awgrymir ar gyfer enwi stryd neu eiddo fod yr un fath neu'n debyg i enwau presennol (yn Gymraeg neu Saesneg) yn Sir Fynwy i osgoi dryswch a dyblygu posibl.
- Dylid osgoi gwahaniaethu yn ôl blaen-ddodiad o fewn yr un ardal neu ardal gyfagos e.e. Rhodfa Afal a Heol Afal.
- Caniateir yr holl atalnodi angenrheidiol, yn cynnwys collnodau.
- Lle bydd datblygiad yn creu rhwydwaith o strydoedd ac na fedrir sefydlu cyd-destun hanesyddol neu leol gyda'r tir a fwriedir ar gyfer datblygu, gall y datblygydd/Cynghorydd Sir/Cyngor Tref neu Gymuned awgrymu thema, gyda rhesymau priodol, i gael eu hystyried.
- Ni ddylai enwau strydoedd neu eiddo a awgrymir fod yn anodd eu hynganu neu eu sillafu. Mae enwau stryd o'r fath yn annerbyniol gan y gallant arwain at ddryswch mewn sefyllfa frys neu arwain at alwadau am newid cyfeiriad gan feddianwyr.
- Dylid osgoi awgrymiadau am enwau stryd neu eiddo sy'n anaddas yn esthetaidd e.e. Ffordd Gwaith Nwy, Tŷ Tomen ac yn y blaen.
- Dylid osgoi awgrymiadau o enwau stryd neu eiddo y gellid eu camddehongli'n fwriadol e.e. Hoare Road, Typple Acenue, Quare Street ac yn y blaen.
- Ni fydd awgrymiadau am enwau stryd neu eiddo y gellid eu hystyried neu eu dehongli fel bod yn anweddus, hiliol neu a fedrai fod yn groes i unrhyw agwedd o bolisïau Cyngor Sir Fynwy yn dderbyniol.
- Dylid osgoi enwau eilaidd h.y. rhes o adeiladau o fewn ffordd sydd eisoes wedi ei henwi rhag cael eu galw yn 'Teras ...'.

4.3.2 Gellir cael cyngor neu arweiniad am gyd-destun hanesyddol neu leol drwy:

- Cyfathrebu gyda'r Cyngor Cymuned/Cynghorydd Sir
- Ymweld â'n gwefan yn https://www.monmouthshire.gov.uk/street-naming-and-numbering/
- Ymweld â'n gwefan Llyfrgelloedd a Gwasanaeth Gwybodaeth yn http://libraries.monmouthshire.gov.uk/

# 5 *Cymeradwyo Cynlluniau Enw a Rhifo Strydoedd*

## 5.1 Enwau Strydoedd

5.1.1 Caiff Enw Strydoedd Newydd yn Sir Fynwy ei wneud dan ‘Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1925, Adran 17 i 19 – Hysbysiad i Awdurdod Trefol lleol cyn enwi stryd’.

Dylid defnyddio’r rhagddodiaid ac ôl-ddodiad dilynol yn unol â’r cyd-destun:

| | |
|---|---|
| Heol/Road | ar gyfer unrhyw brif ffordd neu dramwyfa |
| Rhodfa/Avenue | ar gyfer unrhyw ffordd neu dramwyfa |
| Rhodfa/Drive | ar gyfer unrhyw ffordd neu dramwyfa |
| Street/Stryd | ar gyfer unrhyw ffordd neu dramwyfa |
| Ffordd/Way | ar gyfer unrhyw ffordd neu dramwyfa |
| Gelli/Grove | ar gyfer ffyrdd preswyl |
| Stablau/Mews | ar gyfer ffyrdd preswyl |
| Maes/Place | ar gyfer ffyrdd preswyl |
| Gerddi/Gardens | ar gyfer ffyrdd preswyl (cyn belled nad oes unrhyw ddrysu gyda’r man agored lleol) |
| Clos/Close | ar gyfer cul-de-sac yn unig |
| Cwrt neu Llys/Court | ar gyfer cul-de-sac a blociau preswyl yn unig |
| Pen/End | ar gyfer cul-de-sac yn unig |
| Cylch/Circle | ar gyfer ffyrdd gyda’r un man dechreua a gorffen |
| Cilgant/Crescent | ar gyfer heol siâp cilgant |
| Sgwâr/Square | ar gyfer sgwâr yn unig |
| Teras/Terrace | ar gyfer teras o dai ond NID fel enw eilaidd o fewn stryd arall gydag enw swyddogol |
| Rhiw/Hill | ar gyfer ffordd ar fryn yn unig |
| Crib/Ridge | ar gyfer ffordd ar fryn yn unig |
| Bryn/Rise | ar gyfer ffordd ar fryn yn unig |
| Rhes/Row | ar gyfer ffyrdd preswyl mewn amgylchiadau priodol |
| Gwêl y/View | ar gyfer ffyrdd preswyl mewn amgylchiadau priodol |
| Comin/Common | ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Parade/Parêd | ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Parc/Park | ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Dyfroedd/Reach | ar gyfer ffyrdd mewn amgylchiadau priodol |
| Lôn/Lane | ar gyfer unrhyw ffordd neu dramwyfa mewn ardal wledig neu mewn amgylchiadau priodol |
| Dôl/Meadow | ar gyfer unrhyw ffordd neu dramwyfa mewn ardal wledig |
| Dôl/Mead | fel dewis heblaw’r uchod |
| Tywyn/Dene | ar gyfer ffyrdd gyda chysylltiad hanesyddol i gwm coediog |
| Glanfa/Wharf | ar gyfer ffyrdd cyfochrog neu gyfagos at ddyfrffyrdd y medrir hwylio arnynt |
| Rhodfa/Walk | ar gyfer llwybrau cerddwyr |
| Llwybr/Path | ar gyfer llwybrau cerddwyr |

5.1.2 Bydd treiglad yn enwau rhai o’r strydoedd a bydd felly angen eu hanfon at y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd i’w cyfieithu’n broffesiynol i sicrhau cywirdeb.

5.1.3 Yn gyffredinol, nid yw'n dderbyniol defnyddio Gogledd, De, Dwyrain neu Orllewin fel ôl-ddodiad. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai fod yn briodol gwneud hynny mewn amgylchiadau priodol i hwyluso adnabyddiaeth.

## 5.2 Dilyniant rhifo eiddo

5.2.1 Bydd y protocolau canlynol yn cael eu defnyddio i gynlluniau datblygu newydd a dylent gynnwys:

- Odrifau eiddo wedi'u dyrannu i'r chwith o'r stryd newydd arfaethedig sy'n rhedeg o ddechrau i ddiwedd y stryd. Rhifau gwastad eiddo a ddyrennir i'r dde o'r stryd newydd arfaethedig yn rhedeg o'r dechrau i'r diwedd, neu i'r gwrthwyneb os oes problem gydag eiddo cyfagos ar strydoedd cyfagos a dyblygu rhifau.
- Caiff datblygiadau cul-de-sac hirach eu rhifo fel y nodir uchod. Bydd datblygiadau mewn cul-de-sac byr a datblygiadau ar raddfa fach yn cael eu rhifo yn ddilynol mewn cyfeiriad clocwedd.
- ***Ni*** fydd yr eiddo rhif 13 yn cael ei hepgor o gynlluniau rhifo eiddo oni bai y gofynnid am ei hepgor yn y cais Enwi a Rhifo Strydoedd.
- Dylid tynnu sylw mewn llenyddiaeth a ddosberthir i ddarpar brynwyr y gall y cynlluniau rhifo dros dro newid os yw'r datblygwr yn ychwanegu lleiniau y mae angen mynd i'r afael â hwy ar ôl i'r Enwau a'r Rhifau Strydoedd gwreiddiol gael eu dyrannu i'r datblygiad. Gweler Adran 8 am y ffioedd cymwys.
- Lle mae'n bosibl na fydd dilyniant rhifo stryd yn bodoli, mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, bydd yn briodol neilltuo enwau eiddo y cytunwyd arnynt, Bydd pob enw eiddo cymeradwy yn cael ei gyfeirio'n uniongyrchol ar yr enw stryd dynodedig swyddogol agosaf, er mwyn galluogi'r gwasanaethau brys i leoli eiddo yn gyflymach.
- Ni ellir rhoi cyfeiriad swyddogol i ddarn o dir, e.e. cae amaethyddol.
- Bydd datblygiad mewnlenwi (eiddo newydd a adeiladwyd rhwng eiddo presennol neu ar dir eiddo sy'n bodoli eisoes) ar stryd wedi'i rhifo yn cael yr un rhif â'r eiddo cyn y mewnlenwi neu'n dilyn mewn amgylchiadau priodol (h.y. pan fydd yr eiddo mewnlenwi yn rhagflaenu Rhif 1 ar stryd wedi'i rhifo) ac yna ôl-ddodiad o 'A', 'B' ac yn y blaen.
- Ar ôl i rif gael ei roi i unrhyw eiddo yn Sir Fynwy ni ellir byth gael gwared ohono. Mae hyn yn berthnasol i bob eiddo yn Sir Fynwy gan gynnwys eiddo sydd â rhifau ond nad ydynt ar stryd wedi'i rhifo. Gellid ychwanegu enwau ond ni allant fyth ddisodli'r rhif.
- Bydd gan bob cyfeiriad fersiwn Gymraeg ac mae hyn yn cynnwys unedau o fewn stad ddiwydiannol fel enghraifft. Bydd y rhagddodiad yn cael ei gyfieithu yn ogystal â llythrennau'r ôl-ddodiad. Bydd y llythrennau'n cael eu cyfieithu, ond heb eu defnyddio mewn dilyniant; felly bydd Unit 1D yn cael ei gyfieithu i Uned 1D yn hytrach na dilyn dilyniant yr Wyddor Gymraeg a defnyddio Ch.

| **Saesneg** | **Cymraeg** |
|---|---|
| Unit A | Uned A |
| Unit B | Uned B |
| Unit C | Uned C |
| Unit D | Uned D |

- Bydd eiddo, yn enwedig y rheiny sy'n meddiannu safleoedd cornel, yn cael eu rhifo neu eu henwi yn ôl y stryd lle mae'r brif fynedfa. Ni chaniateir trin enwau neu rifau eiddo er mwyn sicrhau cyfeiriad mwy mawreddog neu ddymunol, neu er mwyn osgoi cyfeiriad y credir bod ganddo gysylltiadau annymunol.
- Gellir rhoi enw i flociau o fflatiau a rhandai ond bydd pob fflat neu randy unigol yn cael ei rifo yn olynol.

- Os yn bosib, dylai enwau'r hol flociau datblygu newydd ddiweddu gydag un o'r ôl-ddodiaid canlynol:

| | |
|---|---|
| Cwrt neu Llys/Court | Porthdy/Lodge |
| Tŷ/House | Fflatiau/Apartments |
| Penrhyn neu Pwynt/Point | Plastai/Mansions |
| Tŵr/Tower | Bannau/Heights |

- Bydd rhai o'r fersiynau Cymraeg uchod yn treiglo/newid pan ychwanegir enw adeilad ac felly bydd angen i'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd eu hanfon i'w cyfieithu'n broffesiynol er mwyn sicrhau cywirdeb.
- Dylai eiddo masnachol sy'n cynnwys nifer o swyddfeydd, ystafelloedd neu unedau swyddfa sicrhau bod pob swyddfa, ystafell neu uned yn cael eu hadnabod, os yn bosib, gan atodlen rifo (e.e. Ystafell 1, Ystafell 2 ac ati) neu lle bo hynny'n addas yn ôl; eu lleoliad yn yr adeilad (e.e. Llawr Gwaelod, Llawr Cyntaf ac ati).
- Dylai pob eiddo masnachol gael ei rifo neu ei enwi yn unigol.

## 5.3 Canolfannau siopa, parciau manwerthu a stadau diwydiannol

5.3.1 Er mwyn lleihau trafferthion a dryswch, dylai cyfeiriad pob eiddo masnachol fod yn gyfeiriad cynaliadwy y gellir ei ail-ddefnyddio gan ba bynnag fusnes neu sefydliad sy'n meddiannu'r eiddo. Dylid neilltuo rhifau unedau a fydd yn aros yn gyson pa bynnag gwmni sy'n meddiannu'r adeilad. Dylai rhif yr uned gael ei ddangos yn amlwg ar bob adeilad.

5.3.2 Canolfannau Siopa (Arcedau neu Rodfeydd): Rhoddir enwau i'r adeilad sy'n gartref i ganolfan siopa dan do. Bydd angen ei rhif unigryw ei hun ar bob siop neu uned yn yr adeilad a'r stryd y bernir bod gan yr adeilad ei brif fynediad ohoni fydd y stryd a ddefnyddir yn y cyfeiriad e.e.

Uned 1 Arcêd Siopa Trefynwy, Stryd Fawr, Trefynwy

Uned 2 Arcêd Siopa Trefynwy, Stryd Fawr, Trefynwy.

5.3.3 Parciau Manwerthu (Canolfannau Siopa Awyr Agored): Rhoddir enw i'r parc neu'r ganolfan. Bydd angen ei rif unigryw ei hun ar bob siop neu uned oddi mewn. Y stryd y bernir bod gan y parc neu'r ganolfan ei phrif fynediad ohoni yw'r stryd a ddefnyddir yn y cyfeiriad, fodd bynnag, mae'n bosibl y gellir cael mynediad i rai siopau neu unedau o stryd wahanol a bydd y stryd hon yn cael ei defnyddio yn y cyfeiriadau ar gyfer y siopau neu'r unedau penodol hynny. Bydd y cynllun rhifo yn cael ei gymhwyso i'r parc neu'r ganolfan fel endid sengl pa bynnag stryd y gellir cael mynediad i'r unedau ohoni. E.e.

Uned 1, Canolfan Siopa Trefynwy, Stryd Fawr, Trefynwy

Uned 2, Canolfan Siopa Trefynwy, Lôn yr Eglwys, Trefynwy

5.3.4 Stadau Diwydiannol: Lle bo hynny'n briodol gellir rhoi enw i stad ddiwydiannol. Bydd angen ei rhif unigryw ei hun ar bob uned neu iard. Os oes mynediad uniongyrchol i'r holl unedau o'r un stryd, bydd y cynllun rhifo yn seiliedig ar y stâd ddiwydiannol fel endid sengl a'r stryd y ceir mynediad ohoni yw'r stryd a ddefnyddir yn y cyfeiriad. E.e.

Uned 1, Stad Ddiwydiannol Trefynwy, Ffordd Uchel, Trefynwy

Uned 2, Stad Ddiwydiannol Trefynwy, Ffordd Uchel, Trefynwy

5.3.5 Fodd bynnag, os yw'r stad yn cynnwys mwy nag un stryd, a bernir bod angen enwi'r strydoedd hyn, bydd yr unedau neu'r iardiau'n cael eu rhifo i'r stryd y maent yn cael mynediad ohonynt. Os bernir ei bod yn briodol o hyd rhoi ei enw ei hun i'r stad ddiwydiannol, bydd yr enw nawr yn cael ei drin fel ardal e.e.

Uned 1, Ffordd Uchel, Stad Ddiwydiannol Trefynwy, Trefynwy
Uned 2, Ffordd Uchel, Stad Ddiwydiannol, Trefynwy

Uned 1, Ffordd Isel, Stad Ddiwydiannol Trefynwy, Trefynwy

Uned 2, Ffordd Isel, Stad Ddiwydiannol Trefynwy, Trefynwy

5.3.6 Dylid nodi bod enwau Canolfannau Siopa, Parciau Manwerthu a Stadau Ddiwydiannol yn rhwym wrth yr un egwyddorion ag enwau strydoedd a nodir yn adrannau 2 a 3 uchod. Argymhellir cysylltu gyda'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd ar gam cynnar yn y datblygiad fel y gellir cytuno ar gynlluniau enwi a rhifo cyn dechrau marchnata.

## 5.4 Gweithredu cyfeiriadau newydd

5.4.1 Pan fydd datblygiad newydd wedi'i enwi a'i rifo, ystyrir bod y cyfeiriadau a gafodd eu creu yn rhai 'dros dro'. Ychwanegir y cyfeiriadau at gronfa ddata 'Heb Ei Adeiladu Eto' (NYB) y Post Brenhinol er mwyn osgoi'r broblem o bost yn cael ei anfon i eiddo nad yw'n bodoli ar safle adeiladu. Unwaith y bydd yr adeiladau wedi eu cwblhau ac yn medru derbyn post, gellir symud y cyfeiriadau o NYB i Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF) y Post Brenhinol.

5.4.2 Ar y pwynt hwn, unwaith y bydd eiddo yn barod i rywun fyw ynddo, dylai'r datblygydd naill ai:

Defnyddio ffurflen cyswllt ar-lein y Post Brenhinol i'w hysbysu fod yr eiddo yn barod i dderbyn post;

neu

Cysylltu â'r adran Enwi a Rhifo Strydoedd drwy developmentcontrol@monmouthshire.gov.uk fydd yn cysylltu â'r Post Brenhinol ar ran y datblygydd.

# 6 *Newidiadau i Enwi a Rhifo Strydoedd presennol*

## 6.1 Ychwanegu enw at eiddo sydd â rhif presennol

6.1.1 Caniateir dynodi enw eiddo ond lle mae cynllun rhifo presennol ar waith, bydd yr enw yn ychwanegiad at y rhif hwnnw ac nid yn ei le. Mae'n rhaid i'r enw beidio â bod yn cael ei ddefnyddio eisoes gan unrhyw eiddo arall, nac yn swnio'n rhy debyg i unrhyw eiddo arall yn yr ardal (tref bost e.e. Y Fenni – NP). Cynhelir gwiriad pan dderbynnir y cais. Ni fydd enwau strydoedd neu eiddo y gellid eu hystyried neu eu dehongli fel bod yn anweddus, hiliol neu a fedrai fod yn groes i unrhyw agwedd o bolisïau cyfle cyfartal Cyngor Sir Fynwy yn dderbyniol.

## 6.2 Ailenwi eiddo a enwir yn bresennol

6.2.1 Gellir newid enw eiddo sy'n bodoli eisoes. Rhaid i'r enwau newydd beidio â bod yn cael eu defnyddio eisoes na swnio yn rhy debyg i unrhyw eiddo arall yn yr ardal (tref bost e.e. Y Fenni – NP). Cynhelir gwiriad pan dderbynnir cais. Ni fydd enwau strydoedd neu eiddo y gellid eu hystyried neu eu dehongli fel bod yn anweddus, hiliol neu a fedrai fod yn groes i unrhyw agwedd o bolisïau cyfle cyfartal Cyngor Sir Fynwy yn dderbyniol.

## 6.3 Trosi adeilad presennol

6.3.1 Bydd trosi neu isrannu eiddo preswyl sy'n arwain at un pwynt neu fynediad y gellir cael mynediad i'r holl fflatiau ohono yn cael ei rifo yn hytrach na'i ddisgrifio neu ei lythrennu h.y. Fflat 1 yn hytrach na Fflat Llawr Cyntaf neu Fflat A.

6.3.2 Bydd trosi neu is-rannu eiddo preswyl sy'n arwain at bwyntiau mynediad lluosog gyda phob fflat â'i drws ffrynt ar wahân ei hun, oddi ar y stryd, yn cynnwys ôl-ddodiad i'r prif gyfeiriad cragen h.y. 'A', 'B', 'C' ac yn y blaen (24A, 24B, 24C ac ati).

6.3.3 Bydd eiddo cyfun yn defnyddio rhifau'r eiddo gwreiddiol lle defnyddir rhifau adeilad. Er enghraifft bydd uno dau eiddo yn 4 Stryd Fawr a 6 Stryd Fawr neu Uned 1 Stad Fasnachu ac Uned 2 Stad Fasnachu *yn* arwain at gyfeiriadau newydd o *4-6 Stryd Fawr* ac *Uned 1-2 Stad Fasnachu* yn y drefn honno.

## 6.4 Trosi ysgubor/adeilad allanol neu adeilad sy'n adfail

6.4.1 Caniateir dynodi enw eiddo i ysgubor/adeilad allanol ond mae'n rhaid i'r enw (Cymraeg na Saesneg) beidio â bod yn cael ei ddefnyddio eisoes gan unrhyw eiddo arall, na swnio'n rhy debyg i unrhyw eiddo arall yn yr ardal (tref bost e.e. Y Fenni- NP). Cynhelir gwiriad pan wneir cais. Ni fydd enwau strydoedd neu eiddo y gellid eu hystyried neu eu dehongli fel bod yn anweddus, hiliol neu a fedrai fod yn groes i unrhyw agwedd o bolisïau cyfle cyfartal Cyngor Sir Fynwy yn dderbyniol. Gellir datblygu cynllun rhifo os oes mwy nag un ysgubor/adeilad allanol mewn fferm/eiddo yn cael ei ddatblygu.

6.4.2 Caniateir neilltuo enw eiddo i adfail sy'n cael ei ddatblygu os nad yw'r stryd y mae mynediad iddo ohoni wedi'i rhifo. Os oes gan y stryd y gellir cael mynediad ohoni gynllun rhifo yna bydd yr eiddo datblygedig yn ymuno â'r cynllun rhifo hwnnw lle bo hynny'n briodol.

6.4.3 Bydd enw'r fferm/eiddo y mae'r ysgubor/addasiad adeilad allanol wedi'i leoli ynddi yn cael ei gynnwys yng nghyfeiriad yr ysgubor oherwydd y mynediad a rennir. Dim ond os oes gan yr addasiad ysgubor/adeilad allanol ei fynediad ei hun, ar wahân i'r fferm/eiddo, y bydd enw'r fferm/eiddo yn cael ei hepgor o'r cyfeiriad.

## 6.5 Ailenwi strydoedd ac enwi strydoedd gwledig heb eu henwi ar gais preswylwyr

6.5.1 Os yw dwy ran o dair o'r preswylwyr yn cytuno, mae angen cais ysgrifenedig i newid enw stryd. Bydd angen rhoi rhesymau dros yr awydd am newid ac am ddewis yr enw newydd. Mae'n rhaid i'r enw newydd gadw at yr egwyddorion a nodir mewn adrannau ac uchod.

6.5.2 Y Rhestr Strydoedd Genedlaethol (NSG) yw ffynhonnell ddiffiniol enwau strydoedd swyddogol neu ddisgrifiadau. Mae'r un ffynhonnell ddiffiniol hon yn sicrhau cysondeb mewn gwahanol gronfeydd data a chaiff ei defnyddio gan y Gwasanaethau Brys a Gwasanaethau Mewnol, ac mae'n cynnwys Cofrestr Priffyrdd a Chofnodion Enwi a Rhifo Strydoedd Sir Fynwy.

6.5.3 Mewn amgylchiadau lle mae preswylwyr yn ystyried y cafodd stryd ei henwi yn anghywir, dylent roi tystiolaeth sylweddol fod enw swyddogol y stryd yn wahanol i'r un a restrir yn y NSG. Bydd y Cyngor yn ystyried ailenwi'r stryd os rhoddir tystiolaeth o'r fath. Os na fedrir rhoi tystiolaeth sylweddol, yna caiff ceisiadau i newid cofnod yr NSG eu trin fel cais i newid enw'r stryd ac mae'n rhaid cydymffurfio gyda'r egwyddorion a nodir uchod a chodir ffi ii dalu am gost y platiau enw stryd ac amser swyddogion gan ei fod yn waith llafurus iawn. Gweler Adran 8 am y costau.

## 6.6 Ailrifo eiddo presennol neu ail-enwi stryd i gynnwys datblygiad newydd

6.6.1 Fel arfer, dim ond pan fydd newidiadau'n arwain (neu yn debygol o arwain) at broblemau ar gyfer y Gwasanaethau Brys, neu fod datblygiad newydd yn digwydd na fedrir ei gynnwys o fewn y drefn rhifo bresennol, y caiff ailrifo ei ystyried. Gan fod hon yn broses sy'n cymryd llawer o amser ac a all achosi cost a thrafferthion i feddianwyr unigol, bydd yn cael ei hosgoi lle bynnag y bo modd. Ar gyfer datblygiad newydd o fewn stryd sy'n bodoli, mae'n well defnyddio ôl-ddodiaid, neu ail-rifo lle mae dim ond ychydig o eiddo a gaiff eu heffeithio, yn hytrach nag ail-rifo stryd yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, nid yw hyn yn bosibl bob amser a bydd ail-enwi strydoedd ac ail-rifo eiddo yn ôl disgresiwn Cyngor Sir Fynwy.

# 7 Rhestr Tir ac Eiddo Cyngor Sir Fynwy

## 7.1 Y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG)

7.1.1 Mae'r adran hon o'r Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd ar gyfer gwybodaeth ac arweiniad yn unig. Mae'r LLPG yn rhyng-gysylltiedig gydag Enwi a Rhifo Strydoedd ac mae'r wybodaeth ddilynol yn berthnasol wrth ddeall defnydd a chofnodi cyfeiriadau yn well. Caiff hyn ei reoli gan y Tîm GIS.

7.1.2 Mae dau fath o gyfeiriad yn cael eu defnyddio fel arfer:

- Y Cyfeiriad Post yw ffurf y cyfeiriad sydd gan y Post Brenhinol ar gyfer dosbarthu post. Nid yw'r Post Brenhinol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddefnyddio'r cyfeiriad post at unrhyw bwrpas arall heblaw dosbarthu post ganddynt hwy eu hunain.
- Y cyfeiriad Prydeinig Safonol (BS) yw ffurf y cyfeiriad sy'n cydymffurfio gyda'r safon cenedlaethol ar gyfer cyfeiriadau. Caiff y dull cyfeiriad hwn ei ragnodi gan y Llywodraeth ar gyfer gwahanol ddibenion statudol tebyg i geisiadau cynllunio a chofrestru etholiadol. Caiff ei ddefnyddio yng nghofrestr cyfeiriadau sylfaenol y Cyngor, y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol (LLPG). Dyma hefyd sail y Rhestr Cyfeiriadau Genedlaethol a gyflwynodd y Llywodraeth yn 2011 i roi un rhestr cyfeiriadau ar draws yr holl sector cyhoeddus.

7.1.3 Er bod dau ffurf y cyfeiriad yn aml yr un peth, gallant weithiau fod yn wahanol. Caiff y gwahaniaethau rhwng y ddwy ffurf eu nodi isod. Gall ffurfiau eraill o gyfeiriad fod yn bodoli (fel y rhai ar weithredoedd teitl neu ar gronfeydd data trydydd parti) ond nid oes gan y rheiny unrhyw statws cyfreithiol.

*7.1.4* ***DS:*** *Pan gofnodir ardal, efallai na fydd bob amser yr un peth yn y ddau fath o gyfeiriad.*

| Elfen Cyfeiriad | Cyfeiriad Post | Cyfeiriad BS |
|---|---|---|
| **Rhif/enw fflat** | Wedi'i gynnwys bob amser | Wedi'i gynnwys bob amser |
| **Rhif eiddo** | Wedi'i gynnwys bob amser | Wedi'i gynnwys bob amser |
| **Enw'r eiddo** | Wedi'i gofnodi fel y prif ddynodydd lle nad oes rhif; caiff ei gofnodi fel wedi ei gofnodi fel enw arall lle mae rhif | Wedi'i gynnwys bob amser |
| **Enw stryd** | Ni chaiff ei gynnwys bob amser mewn ardaloedd gwledig | Wedi'i gynnwys bob amser |
| **Ardal** | Wedi'i gynnwys lle mae gan y Post Brenhinol angen gweithredol | Wedi'i gynnwys lle mae enw o'r fath yn bodoli |
| **Tref** | Wedi'i gynnwys lle mae gan y Post Brenhinol angen gweithredol | Wedi'i gynnwys bob amser |
| **Tref Post** | Wedi'i gynnwys bob amser | Wedi'i gofnodi ar wahân i'r dref ei hun |
| **Cod Post** | Bob amser yn cael ei gynnwys lle mae wedi'i glustnodi | Bob amser yn cael ei gynnwys lle mae wedi'i glustnodi |

## 8 Hysbysu Partneriaid Mewnol ac Allanol am Wybodaeth am Gyfeiriadau

**8.1 Pan gwblheir cais ar gyfer Enwi a Rhifo Stryd, bydd Cyngor Sir Fynwy yn hysbysu'r sefydliadau neu adrannau dilynol am y cyfeiriad(au) newydd neu ddiwygiedig:**

- Post Brenhinol
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Swyddfa Prisiant
- Arolwg Ordnans
- Openreach
- Wales & West Utilities
- Dŵr Cymru
- Y Gofrestrfa Tir
- Tîm GIS (Cyngor Sir Fynwy)
- Cofrestru Etholiadol (Cyngor Sir Fynwy)
- Treth Gyngor a Budd-daliadau (Cyngor Sir Fynwy)
- Gwasanaethau Addysg (Cyngor Sir Fynwy)
- Ailgylchu a Gwastraff (Cyngor Sir Fynwy)
- Iechyd yr Amgylchedd (Cyngor Sir Fynwy)
- Pridiant Tir (Cyngor Sir Fynwy)

# 9 Cysylltiadau Defnyddiol

### 9.1 Y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd yng Nghyngor Sir Fynwy

***Ffôn:*** 01633 644644

***E-bost:***developmentcontrol@monmouthshire.gov.uk

***Gwefan:*** https://www.monmouthshire.gov.uk/street-naming-and-numbering/

***Post:*** Enwi a Rhifo Strydoedd, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA

Mae'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd hefyd yn gyfrifol am blatiau enw strydoedd; dylid defnyddio'r manylion cyswllt uchod ar gyfer ymholiadau am blatiau enw strydoedd.

### 9.2 Y Tîm GIS yng Nghyngor Sir Fynwy

E-bost: mcc_gisteam@monmouthshire.gov.uk

Gwefan: https://maps.monmouthshire.gov.uk/localinfo.aspx

### 9.3 Post Brenhinol

Ffôn: 03456 045060 (llinell gymorth rheoli cyfeiriadau)
Gwefan: www.royalmail.com
Canfod Codau Post: https://www.royalmail.com/find-a-postcode

Cod Ymarfer Ffeiliau Cyfeiriadau Cod Post (PAF) Post Brenhinol:
https://www.royalmail.com/sites/default/files/PAF-Code-of-Practice-211118.pdf

Y Post Brenhinol sy'n cyhoeddi ac yn berchen codau post felly mae'n rhaid cyfeirio pob mater yn ymwneud â chodau post at y Post Brenhinol.

### 9.4 Arolwg Ordnans

Gwefan: www.ordnancesurvey.co.uk

### 9.5 Gwasanaeth Cyfieithu Cyngor Sir Fynwy

E-bost: Cymraeg@monmouthshire.gov.uk

# 10 Atodiadau

## 10.1 Costau Enwi a Rhifo Strydoedd Cyngor Sir Fynwy

| Eitem | Ffi (2023 i 2024) |
| --- | --- |
| Newid enw eiddo (neu ychwanegu enw at eiddo sydd â rhif) | **£58.00** |
| Creu un cyfeiriad newydd: | **£150.00** |
| Ceru dau gyfeiriad newydd: | **£250.00** |
| Creu tri neu fwy o gyfeiriadau newydd: | **£184 + £65.59 fesul llain** |
| Cadarnhau cyfeiriad ar gyfer dibenion trosgludo: | **£51** |
| Newidiadau i gynllun datblygiad ar ôl cyhoeddi hysbysiad Enwi a Rhifo Strydoedd (fesul llain): | **£65.59** |
| Ailenwi stryd ar gais preswylwyr (ynghyd â chost platiau enw stryd newydd) | **£247.97 + £65.59 fesul llain** |